GWAHODDIAD I FYNEGI DIDDORDEB

RHAGLEN CATRIN FINCH
1 x 60 munud

Dymuna S4C wahodd ceisiadau gan gwmnïau sydd â phrofiad o gynhyrchu rhaglenni cerddorol ac/neu adloniannol i gynhyrchu un rhaglen beilot i'w darlledu ar S4C yn ystod 2005 yn seiliedig ar driniaeth sydd eisoes wedi ei derbyn a'i chymeradwyo gan S4C.

Bydd Catrin Finch yn cyflwyno ac yn perfformio yn y rhaglen, a'r bwriad yw fod y rhaglen yn adlewyrchu trawsdoriad eang o gerddoriaeth glasurol, jazz a cherddoriaeth byd. Bydd i'r rhaglen werthoedd uchel o ran cynhyrchu sain a delwedd a'r nod yw bod yn adloniannol gan apelio at ystod eang o'r gynulleidfa yn ogystal â denu gwylwyr newydd i S4C. Mae'n debygol y bydd angen recordio'r rhaglen yn ystod yr haf gyda'r bwriad o'i darlledu cyn diwedd y flwyddyn. Mae'n bosib y bydd rhaglenni pellach yn cael eu comisiynu ar sail y peilot. Mae'n amod o'r tendr ac o unrhyw gomisiwn pellach a all ddilyn fod y tri pherson allweddol sef Catrin Finch fel cyflwynydd, Hywel Wigley fel Ymgynghorydd Sain a Bethan Anwyl fel Cynhyrchydd Gweithredol yn rhan o'r tîm fydd yn gweithio ar y rhaglen. Yr ystod o brisiau a delir am y math yma o raglen fyddai £45,000 i £75,000 yr awr.

Fel cam cyntaf, disgwylir i gwmnïau sydd â diddordeb gadarnhau hynny drwy gysylltu ag S4C trwy e-bost tendr@s4c.co.uk erbyn 5pm ar yr 5 o Ebrill 2005, gan ddarparu'r manylion canlynol:

- Enwau'r personél a gynigir fel tîm allweddol i weithio gyda'r personél a bennir uchod
- Amlinelliad o'u profiad yn y maes
- Cadarnhad fod yr amserlen waith/recordio a chyfleu yn bosibl
- Cynnig arweiniad o'r gost

Wedi asesiad o'r ceisiadau, bydd S4C yn paratoi rhestr fer ac yn hysbysu'r cwmnïau sydd wedi mynegi diddordeb o benderfyniad S4C ar y 7 o Ebrill 2005.

Darperir manylion llawn y tendr (gan gynnwys copïau o'r driniaeth) i'r cwmnïau sydd ar y rhestr fer ond, yn fras, bydd S4C yn gofyn i'r cwmnïau baratoi gwybodaeth pellach gan gynnwys manylion am yr amcangyfrif o'r gost o wneud y gwaith o baratoi'r rhaglen beilot. Bydd angen cyflwyno'r wybodaeth yma o fewn pythefnos i gyhoeddi'r rhestr fer. Bydd S4C yn ymgynghori ac yn cynnal cyfweliadau yn ystod y cyfnod rhwng y 9 a'r 20 o Fai i gyd-fynd â chyfweliadau eraill yn S4C, er mwyn dod i benderfyniad erbyn diwedd y mis. Ni fydd rheidrwydd ar S4C i gomisiynu unrhyw un o'r cynigion.

Os oes gan unrhyw ddarpar ymgeisydd unrhyw gwestiwn ynglyn â'r ddogfen neu'r broses hon, yna dylid cysylltu yn y lle cyntaf drwy yrru neges e-bost at tendr@s4c.co.uk . Bydd cynrychiolydd o S4C yn cysylltu gyda'r ymgeisydd.